


WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Cyhoeddwyd: Ionawr 2012
Cyfeirnod y ddogfen: 119A2011

# Yr adroddiad hwn

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.
Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus a gaiff ei wario yng Nghymru, gan gynnwys y £15 biliwn a ddyfernir i Gymru'n flynyddol gan Senedd San Steffan. Mae Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo bron £5.5 biliwn o'r arian hwn i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a phenodol. Yn ei thro, mae llywodraeth leol yn codi £2.1 biliwn pellach drwy'r dreth gyngor ac ardrethi busnes.
Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif, drwy hybu gwelliannau, fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymrwymedig i nodi a lledaenu arfer da ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Cafodd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, gymorth Lisa Williams, Jackie Joyce a chydweithwyr o dan arweiniad Alan Morris i gynnal yr Asesiad Gwella a llunio'r adroddiad hwn.

# Cynnwys


**Crynodeb a chynigion ar gyfer gwella** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 7

Mae'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau da ar waith i gyflawni gwelliant ac mae'n perfformio'n dda yn y meysydd y mae'n canolbwyntio arnynt; ond nid yw'r trefniadau cynllunio, gwerthuso a chyflwyno adroddiadau ar berfformiad yn ddigon cytbwys nac yn canolbwyntio'n ddigonol ar ganlyniadau 8

- Ar y cyfan, mae'r Awdurdod yn gwneud cynlluniau da ac yn rhoi trefniadau priodol ar waith i gyflawni gwelliant 9
- Mae'r Awdurdod wedi cyflawni llawer o nodau'r blaenoriaethau a nodwyd ganddo 14
- Mae gan yr Awdurdod systemau i fonitro perfformiad ond mae angen iddo fod yn fwy cytbwys wrth werthuso a chyflwyno adroddiadau ar berfformiad a chanolbwyntio ar amcanion gwella 24

**Atodiadau**

**Atodiad 1**
Statws yr adroddiad hwn 27

**Atodiad 2**
Gwybodaeth ddefnyddiol am Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 28

**Atodiad 3**
Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 30

**Atodiad 4**
Amcanion gwella Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 32

# Adroddiad Cryno

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Gan ystyried gwaith Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae i'r adroddiad hwn dair prif adran sy'n cwmpasu'r ffordd y mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn cynllunio, yn darparu ac yn gwerthuso gwelliant.

2 Ar y cyfan, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad bod yr Awdurdod wedi rhoi trefniadau da ar waith i gyflawni gwelliant a'i fod yn perfformio'n dda yn y meysydd y mae'n canolbwyntio arnynt; ond nid yw'r trefniadau cynllunio, gwerthuso a chyflwyno adroddiadau ar berfformiad yn ddigon cytbwys nac yn canolbwyntio'n ddigonol ar ganlyniadau.

3 Canfuwyd bod yr Awdurdod yn gwneud cynlluniau ac yn rhoi trefniadau priodol ar waith i gyflawni gwelliant ar y cyfan. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i fynd i'r afael â'i flaenoriaethau ac ymateb i awgrymiadau blaenorol ar gyfer gwella;
- mae gan yr Awdurdod system gadarn o ran rheoli arian ond mae angen arweiniad clir o ystyried faint o newid sydd ei angen;
- mae trefniadau rheoli gwybodaeth yn cefnogi gwelliant ond ceir rhai gwendidau o ran llywodraethu a pherfformiad;
- mae'r trefniadau presennol ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant;
- mae'r Awdurdod yn bodloni ei rwymedigaethau statudol o ran Deddf yr Iaith Gymraeg.

4 Canfuwyd hefyd fod yr Awdurdod wedi cyflawni llawer o nodau'r blaenoriaethau a nodwyd ganddo. Daethom i'r casgliad hwn yn seiliedig ar y canlynol:

- Ar y cyfan, gwnaeth yr Awdurdod gynnydd da o ran cyflawni ei Amcanion Gwella yn 2010-11.
- Mae mentrau Diogelwch ar y Ffyrdd wedi parhau eleni a gwelwyd gostyngiadau yn nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yr ymatebwyd iddynt, damweiniau angheuol a difrifol a marwolaethau, ond er bod nifer yr anafiadau a marwolaethau wedi lleihau yn gyffredinol gwelwyd cynnydd yn nifer yr anafiadau a marwolaethau ymhlith beicwyr modur.
- Mae'r Awdurdod wrthi'n datblygu ffyrdd mwy arloesol ac effeithlon o weithio i ymateb i ystod eang o ddigwyddiadau.

5 Yn olaf, mae'r adroddiad yn nodi ein barn ar hunanasesiad yr Awdurdod o'i berfformiad a'i drefniadau. Daethom i'r casgliad fod gan yr Awdurdod systemau i fonitro perfformiad ond bod angen iddo fod yn fwy cytbwys wrth werthuso a chyflwyno adroddiadau ar berfformiad a chanolbwyntio ar amcanion gwella er mwyn cael darlun cliriach o'r cynnydd y mae'n ei wneud yn erbyn ei amcanion gwella.

# Cynigion ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Parhau i roi cynigion blaenorol ar gyfer gwella ar waith er mwyn cryfhau amcanion gwella a mesurau perfformiad cysylltiedig a sicrhau bod adroddiadau yn canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau er mwyn gallu nodi a gwerthuso effaith ei weithgarwch ar gyfer ei gymuned. |
| C2 | Gweithredu meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hadolygiad Rheoli Gwybodaeth. |
| C3 | Gweithredu meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hadolygiad o'r defnydd o Dechnoleg. |
| C4 | Mynd i'r afael â materion sy'n codi o'r archwiliad o ddangosyddion perfformiad ynghylch sut y caiff 'digwyddiadau dros y ffin' eu trin. |
| C5 | Mynd i'r afael â'r awgrymiadau a wnaed yn Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig ynghylch llunio adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio ar ganfyddiadau gwaith Archwilio Mewnol. |

# Adroddiad manwl



# Cyflwyniad

6 Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Ar dudalen 2 ceir esboniad cryno o'r hyn y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei wneud.

7 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn darparu rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Mae'r *Adroddiad Gwella Blynyddol* yn rhoi darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n gwneud hynny, gan ddefnyddio gwaith arolygiaethau eraill, gan gynnwys y Tîm Asesu Cymheiriaid Tân ac Achub[1] , lle y bo'n briodol. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd y mae'r Awdurdod wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi *ei Adroddiad Gwella Blynyddol* diwethaf, gan ystyried hunanasesiad yr Awdurdod ei hun.

8 Drwy'r Adroddiad, rydym yn nodi'r hyn y mae angen i'r Awdurdod ei wneud i wella ei wasanaethau. O ystyried yr ystod o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Awdurdod, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Awdurdod ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella - os byddwn yn gwneud cynigion i'r Awdurdod, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

9 Hoffem wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn i ni drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

1 Cyflwynodd Llywodraeth Cymru drefniadau newydd i asesu perfformiad gweithredol awdurdodau tân ac achub ym mis Tachwedd 2006. Fel rhan o’r broses asesu, cynhelir hunanasesiad yn erbyn fframwaith a ddarperir yn ganolog ynghyd ag adolygiad gan dîm asesu cymheiriaid sy’n cynnwys swyddogion o awdurdodau tân ac achub eraill.

## Mae'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau da ar waith i gyflawni gwelliant ac mae'n perfformio'n dda yn y meysydd y mae'n canolbwyntio arnynt; ond nid yw'r trefniadau cynllunio, gwerthuso a chyflwyno adroddiadau ar berfformiad yn ddigon cytbwys nac yn canolbwyntio'n ddigonol ar ganlyniadau

10 Mae'r adroddiad hwn yn nodi barn yr Archwilydd Cyffredinol ar berfformiad yr Awdurdod o ran cyflawni ei ddyletswydd statudol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Cafodd y farn hon ei llywio gan waith Swyddfa Archwilio Cymru, KPMG LLP a'r Tîm Asesu Cymheiriaid Tân ac Achub.

11 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r awdurdod. Canolbwyntiodd ein gwaith ar y prif amcanion y mae'r Awdurdod wedi'u pennu iddo'i hun ar gyfer blwyddyn ariannol 2010-11. Mae'n adeiladu ar adborth ac adroddiadau archwilio blaenorol a gyflwynwyd i'r Awdurdod ac yn olrhain y cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod o ran ymateb i ganfyddiadau archwiliadau blaenorol. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith a gyflawnwyd eleni.

12 Mae ein casgliad cyffredinol yn adlewyrchu cynnydd yr Awdurdod o ran gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus a'r cynnydd y mae wedi'i wneud yn erbyn ei feysydd ffocws allweddol a'i Amcanion Gwella.

13 Yn ogystal â rhoi trefniadau effeithiol ar waith i gynllunio ar gyfer gwelliant a'i gyflawni, mae'n bwysig bod gan yr Awdurdod ddealltwriaeth dda o raddau'r cynnydd a'r gwelliant y mae'n ei wneud. Canfuwyd bod gan yr Awdurdod systemau i fonitro perfformiad ond nad yw'r rhain yn arwain at werthusiad cytbwys nac adroddiadau cytbwys ar berfformiad ar hyn o bryd. Mae'r diffyg hwn yn deillio'n bennaf o ddibyniaeth ar ddangosyddion strategol cenedlaethol penodol yn hytrach na chyfres lawn o fesurau cytbwys i fesur cyflawniad yn erbyn yr Amcanion Gwella a'r ffaith nad oes eglurhad ar ffurf naratif o berfformiad (cadarnhaol neu negyddol).

14 Penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei holl ddyletswyddau o ran cyhoeddi gwybodaeth am welliant a gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar y cyfan.

## Ar y cyfan, mae'r Awdurdod yn gwneud cynlluniau da ac yn rhoi trefniadau priodol ar waith i gyflawni gwelliant

15 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi ein hasesiad o amcanion gwella'r Awdurdod sydd wedi'u rhestru yn Atodiad 4, a sut mae'r Awdurdod yn cynllunio ac yn rheoli ei fusnes i gynnal a gwella gwasanaethau. Mae'r adran hon o'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at ymateb yr Awdurdod i faterion a godwyd mewn adroddiadau blaenorol.

### Mae gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i fynd i'r afael â'i flaenoriaethau ac i ymateb i awgrymiadau blaenorol ar gyfer gwella

16 Nodwyd bod arweinwyr yr Awdurdod yn parhau i lywio newid yn llythyr *Diweddaru'r Asesiad Corfforaethol*, a gyflwynwyd i'r Awdurdod gan yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Gorffennaf 2011. Tynnwyd sylw at y ffaith y dylai blaenoriaethau'r Awdurdod o ran ei drefniadau corfforaethol ar gyfer y cyfnod sydd i ddod ganolbwyntio ar ddatblygu atebion Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) priodol i gefnogi'r broses gwneud penderfyniadau a sicrhau bod amcanion gwella yn fesuradwy ac y cyflwynir adroddiadau arnynt.

17 Gwnaed cynnydd i ehangu ystod y data sydd ar gael i reolwyr drwy ddatblygu trefniadau cofnodi o'r system Cofnodi Digwyddiadau (IRS) a'r System Rheoli Cofnodion (RMS).

18 Diwygiwyd trefniadau cynllunio busnes ar gyfer 2011-12 a phennwyd Amcanion Gwella sy'n cynnwys disgrifiadau manwl o'r camau gweithredu arfaethedig, y canlyniadau disgwyliedig a'r mesurau a ddefnyddir i bennu llwyddiant yn y rhan fwyaf o achosion. Cyflwynwyd templedi Cynllunio Busnes newydd a phrosesau adolygu cysylltiedig i gryfhau atebolrwydd a sicrhau y caiff camau gweithredu eu cymryd ac mae uwch reolwyr yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â'r rheolwyr prosiect enwebedig er mwyn monitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu'r Cynlluniau Busnes.

19 Mae'r Awdurdod yn dechrau newid y ffordd y mae'n gwneud pethau gyda'r nod o wella ei effeithlonrwydd. Mae wedi gwneud cynnydd i roi mesurau cydnerthu newydd ar waith ar gyfer yr ystafell reoli, wedi mabwysiadu ffyrdd newydd o gyfathrebu â grwpiau allweddol, er enghraifft myfyrwyr a ffermwyr, ac wedi meithrin cysylltiadau agosach â phartneriaid fel y gellir targedu gwiriadau diogelwch tân yn y cartref yn well ymhlith y rheini sy'n wynebu'r perygl mwyaf. Mae wedi cryfhau prosesau i ddelio â salwch hirdymor, cyflwyno prosesau monitro sicrwydd gweithredol newydd ac ers mis Ebrill 2011, wedi newid ei strwythur sefydliadol. Mae llawer o'r newidiadau hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill gan gynnwys awdurdodau unedol, y gwasanaeth iechyd a grwpiau amrywiol o'r sector gwirfoddol.

20 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi nodi nifer o feysydd ar gyfer gwella i'r Awdurdod yn ei adroddiadau dros y ddwy flynedd diwethaf. Nododd llythyr *Diweddaru'r Asesiad Corfforaethol* (Gorffennaf 2011) fod yr Awdurdod yn gweithio i fynd i'r afael â'r meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn flaenorol. Mae'r tabl isod yn rhoi'r diweddaraf ar y camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â chynigion blaenorol ar gyfer gwella:

| Cynnig ar gyfer gwella | Diweddariad 2012 |
|---|---|
| Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol (Awst 2010) | |
| Mynd i'r afael â'r ffaith y gallai'r Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio fod yn dyblygu rolau wrth fonitro gwybodaeth am berfformiad, er mwyn osgoi unrhyw ddryswch neu ddyblygu diangen. | • Mae'r Clerc a Swyddog Cyswllt yr Aelodau yn sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu rhwng gwaith y Pwyllgor Archwilio a'r Panel Gweithredol, yn enwedig o ran monitro perfformiad. |
| Sicrhau bod yr ystod gyfredol o feddalwedd cyflwyno adroddiadau yn arwain at broses gwneud penderfyniadau gadarn yn y tymor canolig i'r hirdymor. | • Gwnaed cynnydd i ehangu ystod y data sydd ar gael i reolwyr drwy ddatblygu trefniadau cofnodi o'r system Cofnodi Digwyddiadau (IRS) a'r System Rheoli Cofnodion (RMS).<br>• Nid oes unrhyw gynlluniau ar y gweill ar hyn o bryd i ddatblygu'r defnydd o system Ffynnon ymhellach. |
| Adolygu pa brosesau busnes a fydd o'r cymorth mwyaf i gyflawni'r prosiectau arfaethedig yn llwyddiannus. | • Ar ôl ystyried y prosesau sydd eu hangen i gyflawni prosiectau arfaethedig yn llwyddiannus, gan ddwyn ynghyd nifer o adolygiadau gan gynnwys rhai ar drefniadau dyletswydd swyddogion, trefniadau hyfforddi ac argymhellion o adolygiadau allanol, rhoddwyd strwythur sefydliadol newydd ar waith o fis Ebrill 2011.<br>• Cynhaliwyd y gwaith ailstrwythuro i gyflawni arbedion ariannol yn ogystal â chreu gwell trefniadau cyflenwi a darparu drwy systemau adrodd ac atebolrwydd cliriach.<br>• Cyflwynwyd templedi Cynllunio Busnes newydd a phrosesau adolygu cysylltiedig ar gyfer 2011-12 i atgyfnerthu atebolrwydd a sicrhau y cymerir camau gweithredu. Mae'r Prif Swyddogion yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â'r rheolwyr prosiect enwebedig i fonitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu'r Cynlluniau Busnes. |

| Cynnig ar gyfer gwella | Diweddariad 2012 |
|---|---|
| Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol (Awst 2010) | |
| Llunio cynllun tymor canolig i sicrhau cytundeb ar gyfeiriad polisi cyffredinol a'r adnoddau sy'n ofynnol i'w gyflawni. | • Cynllun ariannol tymor-canolig wedi ei ddrafftio. Mae trefniadau ar waith i bennu ei gyllideb flynyddol a rhagamcanu'r gyllideb am y ddwy flynedd ganlynol. Mae Gweithgor y Gyllideb yn ystyried pob opsiwn posibl o ran cyllid a gwasanaethau i lenwi'r bwlch ariannu bob blwyddyn ac yn nodi meysydd lle gellid gwneud arbedion. |
| Yr Adroddiad Gwella Blynyddol (Ionawr 2011) | |
| Datblygu'r amcanion gwella a'r mesurau perfformiad a chanlyniadau cysylltiedig ymhellach er mwyn gallu nodi a gwerthuso effaith ei weithgarwch ar gyfer ei gymuned. | • Mae'r Awdurdod wedi pennu Amcanion Gwella ar gyfer 2011-12 sy'n cynnwys disgrifiadau o'r camau gweithredu arfaethedig, y canlyniadau disgwyliedig a'r mesurau a ddefnyddir i bennu llwyddiant yn y rhan fwyaf o achosion.<br>• Nid yw trefniadau cofnodi gwybodaeth am berfformiad wedi'u strwythuro i gofnodi cynnydd o ran cyflawni'r Amcanion Gwella. |
| Parhau i roi blaenoriaeth i weithgareddau diogelwch ar y ffyrdd er mwyn deall yn well sut y gallant helpu i wneud y ffyrdd yn ei ardal yn fwy diogel. | • Rhoddir blaenoriaeth i weithgareddau diogelwch ar y ffyrdd a phennwyd grwpiau targed, e.e. ysgolion, colegau a phrifysgolion. |

21 Tynnodd *Llythyr Archwilio Blynyddol* (Atodiad 2) yr Archwilydd Penodedig sylw at rai gwelliannau a allai wella'r ffordd y caiff canfyddiadau gwaith Archwilio Mewnol eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a sut y caiff yr aelodau y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o ran gweithredu unrhyw argymhellion a wnaed

## Mae gan yr Awdurdod system gadarn tuag at reoli arian ond mae angen arweiniad clir o ystyried faint o newid sydd ei angen

22 Mae'r Awdurdod wedi bod yn ymwybodol ers cryn amser bod angen iddo sicrhau ei fod yn defnyddio'r adnoddau sydd ganddo mor effeithiol â phosibl ac mae'n parhau i wneud paratoadau synhwyrol i ateb yr heriau ariannol sy'n ei wynebu, sydd yn cynnwys drafftio cynllun ariannol tymor canolig. Er mwyn rheoli'r lleihad cyffredinol yn swm yr arian a ddarperir iddo gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y tair blynedd rhwng 2011-12 a 2013-14, penderfynodd yr Awdurdod rannu'r arbedion o £2.45 miliwn sydd eu hangen dros y cyfnod dan sylw. Arweiniodd hyn at ostyngiad o 0.5 y cant yn y gyllideb yn 2011-12 a 2012-13 a chyllideb ddigyfnewid yn 2013-14. Mae ei gyllideb ar gyfer 2012-13, sy'n cynnwys £815,000 o arbedion, yn cael ei hystyried a chaiff ei chadarnhau ym mis Chwefror 2012.

23 Mae'r Awdurdod wedi rheoli ei gyllideb yn dda dros y blynyddoedd diwethaf ac ar hyn o bryd mae'n rhagweld tanwariant o ychydig llai na £0.5 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol (2011-12), yn bennaf o ganlyniad i arbedion wedi'u cynllunio mewn costau staff. Mae'r trefniadau rheoli effeithiol hyn yn sail gadarn i'r Awdurdod wrth iddo wynebu cyfnod o newid sylweddol a thoriadau ariannol, gan fod ganddo hanes da o sicrhau y caiff ei wasanaethau eu darparu o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddo.

24 Yn ddiweddar, rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod ar gyfrifon 2010-11 yr Awdurdod gan gadarnhau bod yr arian wedi'i wario yn briodol. Mae Atodiad 3 yn rhoi mwy o fanylion.

## Mae trefniadau rheoli gwybodaeth yr Awdurdod yn helpu i gefnogi gwelliant ond ceir rhai gwendidau o ran llywodraethu a pherfformiad

25 O ganlyniad i bwysau ariannol cynyddol ar y sector cyhoeddus, mae angen gwneud y mwyaf o'r wybodaeth a ddelir i ddarparu gwasanaethau o safon yn effeithiol a chynllunio ar eu cyfer. Daeth ein hadolygiad o'r ffordd y mae'r Awdurdod yn rheoli gwybodaeth i'r casgliad canlynol:

- Mae trefniadau a chynlluniau'r Awdurdod ar gyfer rheoli gwybodaeth yn cefnogi gwelliant ac, ar y cyfan, mae'n ymwybodol o'r materion y mae angen iddo fynd i'r afael â hwy.
- Ceir rhai gwendidau yn y trefniadau llywodraethu. Er enghraifft: mae angen diweddaru Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu/Gwybodaeth yr Awdurdod; nid oes ganddo fforwm rheoli ffurfiol i ddwyn ynghyd y trefniadau rheoli gwybodaeth gwahanol; ac nid yw staff yn cael hyfforddiant llawn ar faterion sy'n ymwneud â rheoli gwybodaeth, gan gynnwys diogelwch gwybodaeth.

- Mae perfformiad yr Awdurdod yn gadarn. Mae lefelau priodol o ddiogelwch ar waith ganddo ond gallai wneud cyfrifoldebau yn gliriach drwy benodi un pwynt cyswllt i ymdrin â phob mater o ran diogelwch gwybodaeth. Mae ei systemau rheoli gwybodaeth a rheoli negeseuon e-bost yn llai cadarn ond mae'n cymryd camau rhagweithiol i ddod o hyd i ateb i'r broblem hon.

## Mae trefniadau presennol yr Awdurdod ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus

26 Mae'n rhaid gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg er mwyn trawsnewid y broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, gwella canlyniadau i ddinasyddion a chyflawni arbedion effeithlonrwydd.

27 Canfu ein hadolygiad fod trefniadau presennol yr Awdurdod ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus. Mae'r Awdurdod yn deall sut y gall technoleg ei helpu i sicrhau y defnyddir technoleg mewn ffordd gynaliadwy ac effeithiol, cyflawni effeithlonrwydd a thrawsnewid y broses o ddarparu gwasanaethau ond mae angen iddo sicrhau bod ganddo ddigon o adnoddau ar ffurf sgiliau technegol i gyflawni ei gynlluniau heb effeithio ar ansawdd gwasanaethau. Mae'r meysydd allweddol ar gyfer gwella fel a ganlyn:

- datblygu strategaeth TGCh pum mlynedd newydd;
- dogfennu, cyhoeddi a hyrwyddo safonau a pholisïau technoleg;
- sicrhau bod gan yr Awdurdod y sgiliau a'r adnoddau TGCh i gefnogi a datblygu technoleg heb gael effaith andwyol ar ansawdd gwasanaethau;
- defnyddio technoleg i optimeiddio a safoni prosesau a gweithdrefnau busnes;
- rhoi trefniadau ar waith i fonitro a mesur effeithiolrwydd ac effaith technoleg a boddhad defnyddwyr gwasanaethau.

## Mae'r Awdurdod yn bodloni ei rwymedigaethau statudol o ran Deddf yr Iaith Gymraeg

28 Cafodd yr Awdurdod ei ganmol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg (y Bwrdd) am y data meintiol ac ansoddol a gasglwyd o'r dadansoddiad cynhwysfawr o sgiliau siarad Cymraeg a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. Bydd y wybodaeth hon o gymorth i'r Awdurdod gynllunio ei weithlu yn effeithiol drwy ei Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg. Fodd bynnag, tynnodd y dadansoddiad sylw at wendidau o ran rhai o'r gwasanaethau iaith Gymraeg rheng flaen a ddarperir ac mae'r Bwrdd wedi gofyn i'r Awdurdod gynnwys targedau newydd yn ei Gynllun Gweithredu Iaith Gymraeg sy'n nodi sut y bydd yn mynd i'r afael â'r gwendidau hyn. Cafodd yr Awdurdod ei ganmol gan y Bwrdd hefyd am fynd i'r afael ag argymhellion ei adolygiad o'r wefan.

# Mae'r Awdurdod wedi cyflawni llawer o nodau'r blaenoriaethau a nodwyd ganddo

29 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi ein hasesiad o berfformiad yr Awdurdod o ran:

- cyflawni'r amcanion gwella a bennodd iddo'i hun yn 2010-11;
- helpu i leihau tebygolrwydd ac effaith tanau a gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd drwy ei weithgareddau atal ac amddiffyn;
- ymateb i danau a bygythiadau eraill i ddiogelwch.

## Ar y cyfan, gwnaeth yr Awdurdod gynnydd da o ran cyflawni ei Amcanion Gwella yn 2010-11

30 Ni phennodd awdurdodau tân ac achub Amcanion Gwella o dan y Mesur Llywodraeth Leol (2009) (y Mesur) ar gyfer 2010-11, ond yn lle hynny ailddatganwyd eu hamcanion corfforaethol cyfredol (gan mai hon oedd y flwyddyn interim gyntaf cyn i'r Mesur gael ei weithredu'n llawn). Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod tân ac achub gyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella eu gwasanaethau erbyn diwedd mis Hydref cyn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi. Ym mis Hydref 2009 roedd yr Awdurdod wedi cyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer 2010-11 ac wedi hynny, cyhoeddodd Amcanion Gwella ar gyfer 2011-12 a 2012-13 hefyd. Mae'r amcanion yn seiliedig ar 10 'thema' a ategir gan nifer o gamau gweithredu a chasgliad o Ddangosyddion Perfformiad.

31 Mae Atodiad 4 yn darparu gwybodaeth am y camau a gynlluniwyd i gefnogi'r amcanion gwella ar gyfer 2010-11 a 2011-12. Ar y cyfan, gwnaeth yr Awdurdod gynnydd da o ran cyflawni ei Amcanion Gwella yn 2010-11, a cheir crynodeb o hyn yn y tabl isod:

| Thema / Amcan Gwella | Cynnydd |
|---|---|
| **Amddiffyn ac atal**<br><br>Lleihau nifer y tanau damweiniol a bwriadol a marwolaethau ac anafiadau cysylltiedig drwy ddarparu cymorth a chyngor amserol a dargedwyd ar y cyd â sefydliadau sector cyhoeddus eraill, asiantaethau gwirfoddol ac Atal Tân fel y bo'n briodol.<br><br>Helpu asiantaethau eraill i leihau nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd a'r marwolaethau a'r anafiadau cysylltiedig. | • Er bod gostyngiad yng nghyfanswm y tanau yr ymatebwyd iddynt yn ystod y flwyddyn, bu cynnydd yn nifer y tanau damweiniol.<br>• Er gwaethaf gostyngiad yng nghyfanswm y tanau yr ymatebwyd iddynt, bu farw mwy o bobl mewn tanau. Roedd lefelau marwolaethau yn 2010-11 yr un fath â lefelau 2006-07, er y bu farw mwy nag un person mewn rhai tanau, ac mae'r duedd hirdymor yn dangos lleihad yn gyffredinol yn dilyn adolygiad y Grŵp Gorchwyl yn 2006-07.<br>• Bu cynnydd yng nghyfanswm yr anafiadau a achoswyd oherwydd tân.<br>• Mae'r Awdurdod wedi gweithio gyda'i bartneriaid i barhau i ddatblygu'r ffordd y mae'n nodi ac yn targedu grwpiau mewn perygl fel eu bod yn cael Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref.<br>• Ymatebwyd i lai o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yn ystod 2010-11. Bu llai o farwolaethau a damweiniau difrifol yn ardal yr Awdurdod a bu llai o farwolaethau ac anafiadau'n gyffredinol yn 2010 o gymharu â blynyddoedd blaenorol ond bu cynnydd sylweddol yn nifer y marwolaethau ac anafiadau ymhlith beicwyr modur. |
| **Effeithiolrwydd gweithredol**<br><br>Gwella ei ymateb i argyfyngau drwy adolygu a diweddaru'r ffordd y mae'n gweithredu a'r cyfarpar a ddefnyddir ganddo. | • Cyflwynwyd y system radiogyfathrebu genedlaethol newydd.<br>• Mae chwe cherbyd tân newydd wedi cael eu cyflwyno, mae'r uned rheoli digwyddiadau newydd yn cael ei hadeiladu, ac mae'r adolygiad o bympiau cludadwy ysgafn wedi cael ei gwblhau.<br>• Cyflwynwyd cyfarpar diogelu personol newydd.<br>• Cryfhawyd y trefniadau i adolygu sicrwydd gweithredol drwy gyflwyno prosesau a rhestrau gwirio newydd.<br>• Rhoddwyd cychwyn ar adolygiad i wella effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarperir drwy'r system dyletswydd yn ôl y galw ac roedd y strwythur newydd yn cynnwys rôl ar gyfer Rheolwr Argaeledd. |

| Thema / Amcan Gwella | Cynnydd |
|---|---|
| **Cydnerthedd**<br>Adolygu a gwella'r gallu i ymdopi â digwyddiadau a allai amharu ar wasanaethau yn lleol ac yn genedlaethol. | • Mae prosiect cydnerth Cymru gyfan wedi parhau rhwng ystafelloedd rheoli tanau yng Nghymru.<br>• Gosodwyd terfynellau data cludadwy ar gerbydau'r Awdurdod i'w gwneud yn bosibl i griwiau gael y wybodaeth ddiweddaraf wrth iddynt ymateb i alwadau.<br>• Nodwyd y cyfrifoldeb am reoli parhad busnes wrth ailstrwythuro'r sefydliad o fis Ebrill 2011. |
| **Cydraddoldeb ac amrywiaeth**<br>Sicrhau gweithlu mwy amrywiol sy'n adlewyrchu amrywiaeth y bobl y mae'n eu gwasanaethu. | • Mae gwaith yn mynd rhagddo i roi'r cynllun cydraddoldeb sengl ar waith erbyn mis Ebrill 2012.<br>• Cwblhawyd sesiynau hyfforddi a datblygu ym maes amrywiaeth i uwch reolwyr a phenaethiaid adrannau. |
| **Iaith a threftadaeth**<br>Gwerthfawrogi iaith a threftadaeth Cymru er mwyn cyfrannu at ymdeimlad pobl o les a diogelwch. | • Gwnaed cynnydd yn erbyn y cynigion yng Nghynllun Iaith Gymraeg 2010-2013; rhaid i staff newydd a'r rhai sy'n cael dyrchafiad ddysgu sgiliau sgwrsio sylfaenol yn Gymraeg gan gyrraedd safon benodol; cytunwyd ar ddangosyddion perfformiad newydd a phennwyd lefel sylfaenol o sgiliau iaith. |
| **Cynaliadwyedd**<br>Helpu i wneud Cymru yn lle gwell, yn lle mwy diogel ac yn lle mwy gwyrdd drwy:<br>• leihau gwastraff yn ein gweithrediadau ein hunan;<br>• atal a rheoli tanau a digwyddiadau eraill a allai fod yn niweidiol i'r amgylchedd. | • Gwnaed cynnydd da i gyflwyno ffyrdd o wella effeithlonrwydd ei fflyd gan gynnwys monitro faint o danwydd a ddefnyddir, lefelau defnydd a'r defnydd o ddyfeisiau cyfyngu ar gyflymder.<br>• Mae nifer y tanau yr ymatebir iddynt wedi lleihau yn gyffredinol ond bu cynnydd bach yn nifer y tanau llai ar laswelltir, coetiroedd a chnydau.<br>• Dechreuwyd herio galwadau er mwyn nodi galwadau yr amheuir eu bod yn rhai diangen a/neu faleisus a bu lleihad yn nifer y galwadau o'r fath yr ymatebwyd iddynt. |

| Thema / Amcan Gwella | Cynnydd |
|---|---|
| **Newidiadau cyfreithiol a gwleidyddol**<br><br>Parhau i gynnal cydberthnasau effeithiol â rhanddeiliaid gwleidyddol yn dilyn etholiad cyffredinol 2010.<br><br>Addasu'r prosesau a'r amserlen sy'n gysylltiedig â chyflwyno Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. | • Mae'r aelodau yn ymwybodol o ofynion y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) a newidiwyd y prosesau. |
| **Gwybodaeth**<br><br>Atgyfnerthu gwybodaeth i sicrhau ei bod yn gosod sail amserol, berthnasol a digonol i wneud penderfyniadau, hyrwyddo gwelliant a mesur ei berfformiad ei hun. | • Nid oes unrhyw gynlluniau i ddatblygu'r defnydd o system Ffynnon ymhellach.<br><br>• Gwnaed rhai gwelliannau o ran gwybodaeth, yn enwedig y system cofnodi digwyddiadau, gwaith cynllunio busnes ar lefel sirol ac mewn gorsafoedd, y broses sicrwydd gweithredol a systemau rheoli fflyd. Mae mesurau perfformiad lleol yn parhau i gael eu datblygu.<br><br>• Mae prosesau wedi parhau i ddatblygu mewn ymateb i arolwg staff 2008; cyflwynwyd briffiau gan y Prif Swyddog Tân a chylchlythyr staff ac mae technoleg newydd yn golygu bod gwell mynediad i'r fewnrwyd mewn gorsafoedd. |
| **Technoleg**<br><br>Parhau i gyflwyno ac uwchraddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. | • Rhaglen uwchraddio barhaus o fewn y cyfyngiadau ariannol.<br><br>• Mae'r adran cyfathrebu corfforaethol yn gweithio'n agos gyda'r tîm diogelwch tân cymunedol a'r tîm diogelwch tân deddfwriaethol (sy'n gweithio gyda pherchnogion eiddo masnachol a busnesau) i gefnogi amrywiaeth o waith atal gyda grwpiau amrywiol gan gynnwys ffermwyr, aelodau o'r cyhoedd sydd â phroblemau iechyd meddwl a'u gofalwyr. Defnyddir technolegau newydd fel facebook a twitter i gyrraedd cynulleidfaoedd targed fel myfyrwyr a chodi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â diogelwch tân. |

| Thema / Amcan Gwella | Cynnydd |
|---|---|
| **Trefniadau gweithlu rhagorol a theg**<br>Cynnal gweithlu medrus a llawn cymhelliant, sydd ar gael pan fo'r angen i ddarparu gwasanaethau tân ac achub a chefnogi'r broses honno'n effeithiol. | • Cafodd llawer o'r adolygiadau staffio a gynhaliwyd, megis y rhai ar drefniadau dyletswydd swyddogion, rheolaeth ac argaeledd staff ar ddyletswydd yn ôl y galw, ddylanwad ar strwythur newydd y sefydliad o fis Ebrill 2011.<br>• Defnyddir system PDRPro i gadw cofnodion datblygu personol a monitro'r safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer diffoddwyr tân.<br>• Cyflwynwyd proses sicrhau ansawdd ar gyfer staff hyfforddi. |
| Cynyddu diogelwch cymunedol a gwella rhagoriaeth weithredol:<br>• rheolwyr canol ac uwch reolwyr yn goruchwylio yn ystod digwyddiadau brys;<br>• rhoi'r gorau i ddefnyddio 12 platfform ysgol sy'n codi, trosglwyddo gwaith i griwiau tân ac ailddyrannu adnoddau i waith atal;<br>• sefydlu grŵp bach i adolygu risg ledled Gogledd Cymru er mwyn canfod a yw'r safonau o ran gwasanaeth tân yn briodol o gymharu â'r risg yn y gymuned ac ystyried a yw'r adnoddau gorau yn y lleoedd gorau i ymateb i'r risgiau hynny. | • Wedi'i gynnwys wrth ailstrwythuro'r sefydliad.<br>• Cwblhawyd adolygiad o ysgolion codi ac ailddyrannwyd adnoddau.<br>• Mae adolygiad o risgiau yn mynd. |

## Mae'r Awdurdod yn helpu i atal tanau a gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd rhag digwydd ac er bod cynnydd yn nifer y marwolaethau a'r anafiadau a achoswyd gan danau y llynedd, mae'r duedd hirdymor yn dangos lleihad

**Ymatebwyd i lai o danau mewn anheddau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond bu cynnydd yn nifer y marwolaethau a'r anafiadau**

32 Mae'r Awdurdod yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau a gynlluniwyd i atal tanau rhag digwydd a lleihau eu heffaith pan fyddant yn digwydd. Er mwyn atal tanau rhag digwydd mewn anheddau a lleihau eu heffaith pan fyddant yn digwydd, parhaodd yr Awdurdod i weithio gyda'i bartneriaid i dargedu ei raglen o Wiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref yn ystod 2010-11. Mae'r Awdurdod wedi parhau i ddefnyddio ei System Rheoli Cofnodion er mwyn monitro'r broses sydd ar waith i atgyfeirio achosion lle ceir lefel uchel o risg a mynd i'r afael â phryder y tîm asesu cymheiriaid bod angen system gadarnach i fonitro'r broses gwiriadau diogelwch tân yn y cartref yn yr achosion hynny lle ceir lefel uchel o risg.

33 Gwelwyd gostyngiad o ddau y cant yn ystod 2010-11 yn nifer y tanau mewn anheddau yr ymatebwyd iddynt o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 545 o achosion yn 2009-10 i 535 yn 2010-11). Mae'r gostyngiad hwn ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, sef gostyngiad o bedwar y cant ar gyfer yr un cyfnod:

- Gwelwyd gostyngiad o ddau y cant yn nifer y tanau a ddechreuwyd yn ddamweiniol yn ystod 2010-11 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 479 o achosion yn 2009-10 i 469 yn 2010-11), sy'n cyfateb i'r gostyngiad cyfartalog yng Nghymru ar gyfer yr un cyfnod.
- Cafodd 66 o danau mewn anheddau eu cynnau'n fwriadol, sef yr un faint â llynedd. Ledled Cymru dros yr un cyfnod, gwelwyd gostyngiad o 13 y cant ar gyfartaledd.

34 Bu farw deg o bobl mewn tanau mewn anheddau yn ystod 2010-11; mae'r ffigur hwn yn uwch o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (cafodd wyth o bobl eu lladd yn 2009-10), ond bu farw mwy nag un person mewn rhai tanau ac mae'r duedd hirdymor yn dangos lleihad yn gyffredinol, yn dilyn adolygiad y Grŵp Gorchwyl yn 2006-07. Cynyddodd nifer yr anafiadau a achoswyd gan danau mewn anheddau 24 y cant (o 47[2] yn 2009-10 i 62 yn 2010-11), sydd ychydig uwch na'r cynnydd o 23 y cant a welwyd ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod.

35 Mae tystiolaeth yn awgrymu bod larymau mwg a roddir am ddim fel rhan o waith yr Awdurdod ar wiriadau diogelwch tân yn y cartref yn cyrraedd y rhai sydd mewn perygl, gan gynnwys:

- Ymatebwyd i lai o danau mewn anheddau mewn eiddo heb larwm mwg (o 25 y cant yn 2009-10 i 17 y cant yn 2010-11), ac mae'r ffigurau hyn yn llawer gwell na chyfartaledd Cymru, sef 38 y cant ar gyfer 2010-11.
- Ymatebwyd i fwy o danau mewn anheddau lle'r oedd cyfarpar canfod tân wedi'i weithredu (o 52 y cant yn 2009-10 i 62 y cant yn 2010-11), sy'n well na'r cyfartaledd ledled Cymru, sef 48 y cant ar gyfer 2010-11.

2 Mae Cynllun Gwella a Chynllun Lleihau Risg Gyfunol 2010-11 i 2012-13 Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ailnodi nifer yr anafiadau a gyhoeddwyd yn flaenorol, sef 38 i 47.

- Ni fu newid ers y llynedd yng nghyfran y tanau mewn anheddau yr ymatebwyd iddynt lle nad oedd cyfarpar canfod tân wedi'i weithredu, sef 22 y cant. Mae'r gyfran hon yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 15 y cant ar gyfer 2010-11.

**Ymatebwyd i lai o danau ar safleoedd annomestig o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac er na chafwyd unrhyw farwolaethau, cynyddodd nifer yr anafiadau yn sylweddol**

36 Cafwyd gostyngiad o 11 y cant yn nifer y tanau ar safleoedd annomestig yr ymatebwyd iddynt yn ystod 2010-11 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 256 o achosion yn 2009-10 i 229 yn 2010-11), sydd rywfaint yn well na chyfartaledd Cymru, sef gostyngiad o 10 y cant ar gyfer yr un cyfnod.

37 Ni chafwyd unrhyw farwolaethau oherwydd tanau ar safleoedd annomestig yn ystod 2010-11 (fel yn 2009-10). Bu cynnydd yn nifer yr anafiadau a achoswyd gan danau o'r fath o 10[3] yn 2009-10 i 15 yn 2010-11, (cynnydd o 50 y cant), sy'n uwch na'r cynnydd cyfartalog yng Nghymru o 41 y cant ar gyfer yr un cyfnod. Mae'r niferoedd hyn yn fach a gall pob achos gael effaith sylweddol wrth gymharu blynyddoedd. Ers 2004-05 mae'r Awdurdod wedi gweld gostyngiad o 25 y cant yn y math hwn o anafiadau.

38 Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu canllawiau cenedlaethol Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân ar leihau galwadau diangen a signalau tân diangen. Gwelwyd gostyngiad o 20 y cant yn nifer y galwadau tân diangen yr ymatebwyd iddynt yn ystod 2010-11 o gymharu â 2009-10 (o 1,646 i 1,322) sy'n llawer gwell na chyfartaledd Cymru, sef gostyngiad o naw y cant ar gyfer yr un cyfnod.

**Ymatebwyd i lai o danau bwriadol yn ystod 2010-11 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ni chafwyd unrhyw farwolaethau a gostyngodd nifer yr anafiadau**

39 Gwelwyd gostyngiad o chwech y cant yn nifer y tanau bwriadol yr ymatebwyd iddynt yn ystod 2010-11 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 1,536 o achosion yn 2009-10 i 1,438 yn 2010-11), sy'n well na chyfartaledd Cymru lle gwelwyd cynnydd o 11 y cant ar gyfer 2010-11.

40 Dechreuwyd tua 44 y cant o'r holl danau yr ymatebwyd iddynt yn fwriadol yn ystod 2010-11, sy'n is na'r ffigur ar gyfer 2009-10 (46 y cant) ac yn llawer is na chyfartaledd Cymru, sef 69 y cant yn ystod 2010-11.

41 Ni fu farw neb mewn tanau bwriadol yn ystod 2010-11 a gostyngodd nifer yr anafiadau a achoswyd gan danau bwriadol wyth y cant o 12 yn 2009-10 i 11 yn 2010-11.

42 Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r Tîm Lleihau Tanau Bwriadol a nifer o brosiectau ym maes diogelwch cymunedol i fynd i'r afael â thanau bwriadol yn benodol.

3 Mae Cynllun Gwella a Chynllun Lleihau Risg Gyfunol 2010-11 i 2012-13 Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ailnodi nifer yr anafiadau a gyhoeddwyd yn flaenorol, sef 4 i 10.

**Mae mentrau Diogelwch ar y Ffyrdd wedi parhau eleni a gwelwyd gostyngiadau yn nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yr ymatebwyd iddynt, damweiniau angheuol a difrifol a marwolaethau, ond er bod nifer yr anafiadau a marwolaethau wedi lleihau yn gyffredinol gwelwyd cynnydd yn nifer yr anafiadau a marwolaethau ymhlith beicwyr modur**

43 Nid yw diogelwch ar y ffyrdd yn swyddogaeth statudol gan yr Awdurdod, ond mae'n cydweithio â'r heddlu ac eraill er mwyn gwella diogelwch ar y ffyrdd drwy Grŵp Diogelwch Ffyrdd Cymru. Cynhaliodd yr Awdurdod nifer o fentrau a gynlluniwyd i leihau nifer y damweiniau ar y ffyrdd gan gynnwys:

- cynnal ei rôl fel partner â Grŵp Diogelwch Ffyrdd Cymru;
- cynllun gyrru Pass Plus Cymru, sef cynllun wedi'i anelu at yrwyr ifanc 18 i 25 oed;
- y Cynllun Addysg Moduro, sef menter bartneriaeth sy'n cynnwys yr heddlu ac awdurdodau lleol;
- arddangosiadau fel rhan o sioe deithiol 'Trawiadol' a chymryd rhan mewn diwrnodau diogelwch ar y ffyrdd amlasiantaethol.

44 Bu gwelliannau o ran diogelwch ffyrdd yng Ngogledd Cymru ac mae'r patrwm perfformio yn debyg i gyfartaledd Cymru (fel y gwelir yn y ffigurau isod). Bu cynnydd yn nifer y marwolaethau ac anafiadau ymhlith beicwyr modur o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac erys yn destun pryder:

- bu gostyngiad o 20 y cant yn nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yr ymatebwyd iddynt yn ystod 2010-11 o 767 i 617, sy'n cyfateb yn union i'r gostyngiad o 20 y cant a welwyd ledled Cymru;
- gostyngodd nifer y damweiniau angheuol a difrifol 12 y cant rhwng 2009 pan gafwyd 313 o ddamweiniau a 2010 pan gafwyd 276 o ddamweiniau; mae'r gostyngiad hwn yn fwy na'r gostyngiad a welwyd ledled Cymru, sef 10 y cant;
- bu farw llai o bobl mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd gan ostwng o 23 yn 2009 i 20 yn 2010;
- bu gostyngiad o bump y cant yn nifer y marwolaethau ac anafiadau rhwng 2009 pan gafwyd 2,587 o farwolaethau ac anafiadau a 2010 pan gafwyd 2,450 - mae'r gostyngiad hwn yn debyg i'r gostyngiad ledled Cymru, sef pedwar y cant;
- bu 766 o yrwyr 25 oed ac iau mewn damweiniau yn 2009 o gymharu â 658 yn 2010, sef gostyngiad o 14 y cant sy'n cyfateb i gyfartaledd Cymru;
- cafodd 154 o feicwyr modur eu lladd neu eu hanafu yn 2009 o gymharu â 196 yn 2010, sef cynnydd o 27 y cant sy'n wahanol iawn i gyfartaledd Cymru lle gwelwyd gostyngiad o tua un y cant.

## Mae'r Awdurdod wrthi'n datblygu ffyrdd mwy arloesol ac effeithlon o ymateb i ystod eang o ddigwyddiadau

45 Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod angen bod yn barod i ymateb i amrywiaeth eang o ddigwyddiadau, o danau a gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd i lifogydd, trychinebau naturiol eraill a therfysgaeth. Yn ystod 2010-11 derbyniodd yr ystafell Rheoli Tanau rhyw

17,600 o alwadau ac ymatebwyd i tua 8,387 o ddigwyddiadau. Roedd hyn yn cynnwys 3,297 o danau a 1,355 o ddigwyddiadau gwasanaethau arbennig (gan gynnwys gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, achub pobl ac anifeiliaid).

46 Yn 2010-11, nododd yr Awdurdod, drwy ei Gynllun Lleihau Risg, ffyrdd gwahanol o drefnu ei griwiau'n ddiogel a allai gostio llai. Ar ôl ymgynghori'n eang â'i staff a phartïon allanol, gwnaed newidiadau i drefniadau criwiau'r platfformau ysgolion sy'n codi ac ailddyrannwyd yr adnoddau i waith atal. Cyflwynodd hefyd broses sicrwydd gweithredol newydd i sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn, bod arfer da yn cael ei gofnodi a bod anghenion o ran hyfforddiant yn cael eu nodi, yn enwedig ar gyfer gweithgareddau critigol o ran risg. Mae'r Awdurdod hefyd yn parhau i adolygu agweddau eraill ar y gwasanaethau a ddarperir ganddo gan gynnwys y defnydd o gyfarpar a'i leoliad, sut y gellir gwneud mwy o ddefnydd o ddulliau ymateb deallus i sicrhau bod yr ymateb yn brydlon a thrwy hynny leihau effaith tanau, a pha wybodaeth y mae'n ei rhoi i griwiau drwy weithdrefnau gweithredu safonol a chynlluniau tactegol.

47 Mae'r Tîm Asesu Cymheiriaid Tân ac Achub wedi adolygu trefniadau ymateb ac ymdrin â galwadau yn ddiweddar, a bydd yn cyflwyno adroddiad ar hyn yn y dyfodol agos.

48 Mae'r rhaglen o archwiliadau Iechyd a Diogelwch mewn gorsafoedd ac adrannau wedi parhau drwy gydol 2010-11 ac mae prosesau sicrwydd gweithredol wedi helpu i dynnu sylw at feysydd y mae angen rhoi sylw pellach iddynt. Yn ystod 2010-11 cafodd 43 o aelodau o staff eu hanafu sy'n lleihad sylweddol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol pan anafwyd 86. Bu gostyngiad hefyd yn nifer yr aelodau o staff a anafwyd tra eu bod 'ar ddyletswydd' (o 35 yn 2009-10 i 18 yn 2010-11).

49 Yn ystod 2010-11 cyflwynwyd prosesau newydd i reoli absenoldebau oherwydd salwch, gan gynnwys adolygiadau misol a Phanel Iechyd Galwedigaethol ar gyfer achosion hirdymor. Bu lleihad sylweddol yn nifer y diwrnodau/sifftiau a gollwyd o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch yn 2010-11. Gwelwyd gostyngiad o ychydig dros 760 yn nifer y diwrnodau/sifftiau a gollwyd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol gan ddod â'r cyfanswm i 4,023 o ddiwrnodau, sef gostyngiad o 19 y cant. Collwyd 7.1 diwrnod/sifft gwaith o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch fesul cyflogai cyfwerth ag amser llawn (gan yr holl staff) yn 2010-11, a dyma'r ffigur isaf y mae'r Awdurdod wedi'i gyflawni ers 2004-05. Roedd y gyfradd uchaf o absenoldeb oherwydd salwch ymysg staff yr ystafell rheoli tanau, sef wyth diwrnod ar gyfartaledd (ond mae'n gwella o gymharu â thua 15 diwrnod yn 2009-10), gwelwyd cyfradd absenoldeb o ychydig llai na saith diwrnod ymysg staff gweithredol amser cyflawn (o gymharu â saith a hanner yn 2009-10) a gwelwyd cyfradd o saith diwrnod a hanner ymysg staff anweithredol cyfwerth ag amser llawn o gymharu â 10 diwrnod yn 2009-10.

50 Gwelwyd gostyngiad o 13 y cant yn nifer y galwadau maleisus a gafodd yr Awdurdod yn ystod 2010-11, sef 491 o gymharu â 563 yn 2009-10, sy'n well na chyfartaledd Cymru, a welodd ostyngiad o wyth y cant ar gyfer yr un cyfnod. Yn ogystal â gostyngiad yn nifer y galwadau maleisus y mae'n eu derbyn, mae nifer y galwadau maleisus yr ymatebwyd iddynt hefyd wedi gostwng 16 y cant dros yr un cyfnod (o 140 i 118) o gymharu â gostyngiad cyfartalog o 13 y cant yng Nghymru ar gyfer yr un cyfnod. Mae'r Awdurdod yn parhau i gynnal ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth o beryglon galwadau maleisus.

## Mae gan yr Awdurdod systemau i fonitro perfformiad ond mae angen iddo fod yn fwy cytbwys wrth werthuso a chyflwyno adroddiadau ar berfformiad a chanolbwyntio ar amcanion gwella

51 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi ein casgliad o ran pa mor dda yw hunanasesiad yr Awdurdod o'i berfformiad. Nid yw'n ofynnol i awdurdodau tân ac achub lunio asesiad o berfformiad o dan y Mesur Llywodraeth Leol ar gyfer 2010-11 ond disgwylir iddynt asesu pa mor dda y maent yn cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddynt. Mae'r asesiad yn defnyddio ein canfyddiadau o'r archwiliad o Ddangosyddion Perfformiad, ein harchwiliad o *Gynllun Gwella 2011-12* a'n hadolygiad o amcanion gwella.

52 Mae hunanasesiad cywir yn hanfodol i allu'r Awdurdod i:

- gydnabod y cynnydd y mae'n ei wneud;
- cymryd camau adferol pan nad yw perfformiad yn cyrraedd y lefelau disgwyliedig;
- cyflwyno adroddiadau ar ei berfformiad i ddinasyddion lleol mewn ffordd gytbwys.

53 Er mwyn asesu'r cynnydd y mae'n ei wneud, mae angen gwybodaeth dda am berfformiad ar yr Awdurdod ynghyd â threfniadau cadarn i fonitro'r wybodaeth honno. Mae gan yr Awdurdod wybodaeth am berfformiad sy'n seiliedig ar amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad sydd, ynghyd â gwybodaeth arall lle nad oes dangosyddion perfformiad ar gael neu eu bod yn amherthnasol, yn galluogi'r Awdurdod i lunio barn ar ansawdd a pherfformiad.

54 Wrth archwilio'r data a'r dangosyddion perfformiad diweddaraf gwelwyd bod ansawdd a chywirdeb y wybodaeth a gofnodwyd yn dda. O blith y 12 o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol y mae'n ofynnol i'r Awdurdod gasglu gwybodaeth a rhoi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru yn eu cylch, nodwyd genym fod angen i ddau gael eu cywiro oherwydd y ffordd y cafodd digwyddiadau 'dros y ffin' eu trin yn ystod 2010-11. Fel yr awgrymwyd mae'r Awdurdod yn adolygu ei brosesau i wneud yn siŵr bod ganddo drefniadau i sicrhau bod ei gofnodion yn gyflawn.

55 Mae'r Awdurdod yn cydnabod y bydd rhai o'i amcanion yn anodd eu mesur ac mae'n datblygu mesurau newydd i wneud hyn. Y llynedd awgrymwyd gennym y dylai dangosyddion o'r fath gynnwys mesurau ansoddol a meintiol fel y gellir nodi a gwerthuso canlyniadau cymunedol. Mae angen i'r gwaith hwn barhau. Heb gyfres lawn o fesurau a all ddangos yn glir p'un a yw wedi cyflawni ei Amcanion Gwella, ni all yr Awdurdod ddangos p'un a yw wedi cyflawni ei amcanion a gwneud gwelliannau i ddinasyddion.

56 Nid yw'r trefniadau arferol ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar berfformiad yr Awdurdod yn canolbwyntio ar gynnydd i gyflawni ei Amcanion Gwella. Nid yw fformat yr adroddiadau wedi newid yn ystod 2011-12 o'r hyn a ddefnyddiwyd yn 2010-11 ac mae'n seiliedig ar Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru a nifer fach o ddangosyddion lleol. Golyga hyn na all aelodau nac uwch reolwyr fonitro a yw Amcanion Gwella yn cael eu cyflawni drwy gydol y flwyddyn.

57 Y dull pwysicaf o gyflwyno adroddiadau ar berfformiad i ddinasyddion lleol yw drwy Gynllun Gwella blynyddol yr Awdurdod sy'n darparu gwybodaeth am weithgareddau gwella'r flwyddyn flaenorol, y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn nesaf.

58 Nid yw'r Cynllun Gwella yn cynnwys arfarniad beirniadol o farn yr Awdurdod ar ei berfformiad cyffredinol, a'r hyn y bydd yn ei wneud yn wahanol yn sgîl hynny. Mae'r adran sy'n cynnwys gwybodaeth am berfformiad yn y Cynllun Gwella yn dangos perfformiad ar gyfer blynyddoedd blaenorol a thrwy gydol y ddogfen gwneir rhai cymariaethau â sefydliadau eraill er mwyn rhoi darlun o'r cynnydd a wnaed. Mae'r Cynllun Gwella yn rhoi asesiad cyffredinol o gynnydd yr Awdurdod yn erbyn ei Amcanion Gwella, ond mae rhai o'r asesiadau hyn yn fyr ac yn tueddu i ganolbwyntio ar yr agweddau cadarnhaol. Mae hyn yn golygu y gallai dinasyddion ei chael yn anodd dod i gasgliad cywir ynghylch cynnydd yr Awdurdod yn 2010-11 o ddarllen y cynllun hwn.

# Atodiadau



# Atodiad 1
# Statws yr adroddiad hwn

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan yr Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur). Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19, i gyflwyno adroddiad sy'n tystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Prif waith Swyddfa Archwilio Cymru, i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau, yw cynnal Asesiad Gwella blynyddol.

Caiff hyn ei lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Bydd hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr Awdurdod o ran sicrhau gwelliant.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22).

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r adroddiadau archwilio ac asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (o dan adran 24). Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau ar arolygiadau arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau a bydd yr adroddiad hwn yn disgrifio i ba raddau y mae wedi gwneud hynny.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad yr Awdurdod o'i berfformiad.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae'n rhaid i'r Awdurdod gyflawni'r holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau priodol. Mae tri darn pwysig o ddeddfwriaeth yn ymwneud ag awdurdodau tân:

## Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004

Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod tân wneud darpariaeth ar gyfer diffodd tanau, sydd hefyd yn golygu diogelu bywydau ac eiddo mewn achosion o dân yn ogystal â diffodd tanau. Mae hefyd yn darparu ar gyfer ymateb i wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd ac achosion brys eraill yn ogystal â gweithgareddau diogelwch cymunedol.

## Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005

Daeth y Gorchymyn i rym ar 1 Hydref 2006, gan ddisodli dros 70 o ddarnau unigol o ddeddfwriaeth diogelwch tân. Diddymwyd y gofyniad i fusnesau feddu ar dystysgrifau tân. Mae'r Gorchymyn Diogelwch Tân yn gymwys i bob safle annomestig yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys rhannau cyffredin blociau o fflatiau a thai amlfeddiannaeth. Mae'n rhoi cyfrifoldeb i'r rhai sydd yn y sefyllfa orau i fynd i'r afael â diogelwch tân a sicrhau y caiff risgiau eu hadolygu'n barhaus. O dan y Gorchymyn mae'n ofynnol i'r Person Cyfrifol[4] gynnal asesiad risg tân a rhoi mesurau diogelwch tân priodol ar waith er mwyn sicrhau'r risg leiaf posibl i fywydau o ganlyniad i dân; a sicrhau bod yr asesiad yn gyfredol. Caiff y Gorchymyn ei orfodi gan Awdurdodau Tân ac Achub y disgwylir iddynt ddatblygu cyfundrefnau arolygu priodol yn seiliedig ar risg.

## Deddf Argyfyngau Sifil 2004

Mae'r Ddeddf yn darparu un fframwaith ar gyfer mesurau amddiffyn sifil yn y Deyrnas Unedig a all ateb heriau'r unfed ganrif ar hugain. Mae'r Ddeddf wedi'i rhannu'n ddwy; Rhan 1 sy'n diffinio rhwymedigaethau sefydliadau penodol i baratoi ar gyfer mathau amrywiol o argyfyngau a Rhan 2 sy'n darparu pwerau ychwanegol i'w defnyddio gan y Llywodraeth os bydd argyfwng difrifol.

O dan y Ddeddf caiff gwasanaethau tân ac achub eu diffinio'n Ymatebwyr Categori 1 ac fel y cyfryw mae ganddynt chwe dyletswydd benodol i'w cyflawni:

- asesu'r risg o argyfyngau a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio gwaith cynllunio wrth gefn;
- rhoi cynlluniau argyfwng ar waith;
- rhoi trefniadau Rheoli Parhad Busnes ar waith;
- rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth am faterion amddiffyn sifil ar gael i'r cyhoedd a chynnal trefniadau i rybuddio, hysbysu a chynghori'r cyhoedd mewn achos o argyfwng;
- rhannu gwybodaeth ag ymatebwyr lleol eraill er mwyn gwella'r broses gydgysylltu;

4 Cyflwynodd Llywodraeth Cymru drefniadau newydd i asesu perfformiad gweithredol awdurdodau tân ac achub ym mis Tachwedd 2006. Fel rhan o'r broses asesu, cynhelir hunanasesiad yn erbyn fframwaith a ddarperir yn ganolog ynghyd ag adolygiad gan dîm asesu cymheiriaid sy'n cynnwys swyddogion o awdurdodau tân ac achub eraill.

- cydweithio ag ymatebwyr lleol eraill er mwyn gwella prosesau cydgysylltu ac effeithlonrwydd.

Gosodir dyletswydd ychwanegol ar awdurdodau lleol sef:

- Rhoi cyngor a chymorth i fusnesau a sefydliadau gwirfoddol mewn perthynas â rheoli parhad busnes. Gellir galw ar wasanaethau tân ac achub lleol i gynorthwyo â'r rôl hon.

Mae sefydliadau Categori 2 yn cynnwys sefydliadau megis yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, cwmnïau trafnidiaeth a chwmnïau cyfleustodau. Bydd sefydliadau Categori 1 a 2 yn sefydlu Fforymau Cydnerthu Lleol (yn seiliedig ar ardaloedd yr heddlu) a fydd yn helpu ymatebwyr i gydgysylltu a chydweithio ar lefel leol.

Caiff yr Awdurdod ei ariannu'n uniongyrchol gan yr awdurdodau lleol sy'n rhan ohono yn seiliedig ar yr etholwyr cofrestredig ym mhob ardal. Mae'n cynnwys 28 o gynghorwyr o'r chwe awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru (pennir nifer y cynrychiolwyr o bob awdurdod cyfansoddol yn ôl nifer yr etholwyr llywodraeth leol cofrestredig ym mhob ardal).

Y Cynghorydd Sharon Frobisher yw Cadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub ar hyn o bryd.

Cynhelir cyfarfodydd o'r Awdurdod llawn bedair gwaith bob blwyddyn fel arfer - ym mis Mawrth, Mehefin, Hydref a Rhagfyr - i ystyried pynciau megis cynlluniau gwasanaeth, materion busnes arferol, cyllidebau a gwariant, ac i wneud penderfyniadau polisi neu gymeradwyo penderfyniadau o'r fath fel y bo'n briodol. Mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd, ac mae cofnodion o drafodion yr Awdurdod ar gael ar ei wefan.

Arweinir a rheolir y Gwasanaeth gan Simon Smith, y Prif Swyddog Tân a'r Prif Weithredwr gyda chymorth tîm y prif swyddogion, yr uwch dîm rheoli a chynghorwyr arbenigol.

Am ragor o wybodaeth ewch i wefan yr Awdurdod eu hun yn www.gwastan-gogcymru.org.uk neu cysylltwch â'r Awdurdod ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Ffordd Salesbury, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, Sir Ddinbych, LL17 0JJ.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Cyhoeddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad archwilydd fel a ganlyn ar 30 Tachwedd 2011.

Fel y gwyddoch, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol i bob awdurdod lleol erbyn diwedd mis Ionawr 2012 a bydd rhai o'r materion a nodwyd yn Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig yn draddodiadol yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwnnw. Felly, rwyf wedi achub ar y cyfle i grynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol yn y llythyr byr hwn, sy'n ffurfio'r Llythyr Archwilio Blynyddol. Bwriedir i'r llythyr fod yn ddogfen annibynnol, ond caiff ei gyflwyno i'r Awdurdod a'r cyhoedd fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol hefyd ac felly mae'n cyflawni fy nyletswyddau o ran cyflwyno adroddiad o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru â'r gofynion o ran cyflwyno adroddiadau ar ei berfformiad ariannol a'i ddefnydd o adnoddau

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau;
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Ar 30 Medi 2011 rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol yr Awdurdod a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Nodwyd nifer o faterion a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau yn fy Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol. Fodd bynnag, gwnaed nifer o ddiwygiadau i'r cyfrifon drafft a roddodd bwysau gormodol ar yr amserlen.

O 2010-11, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru lunio eu cyfrifon yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Gosododd y safonau newydd hyn feichiau ychwanegol sylweddol ar staff cyllid yr Awdurdod. Er gwaethaf y pwysau ychwanegol hyn, paratowyd y cyfrifon erbyn y terfyn amser statudol.

Nodwyd y materion canlynol mewn perthynas â'r cyfrifon:

- Gwnaeth llythyr Archwilio Blynyddol 2009-10 bwysleisio pwysigrwydd llunio mantolen agoriadol a chyfres ddrafft o gyfrifon yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol cyn gynted â phosibl. Mae nifer y datgeliadau coll a'r diwygiadau i'r Datganiad Cyfrifon yn dangos bod amserlen y prosiect ar ei hôl hi a bod mwy o waith na'r disgwyl. Fodd bynnag, o ganlyniad i gydweithio agos rhwng y tîm cyllid a'r tîm archwilio, llwyddwyd i gwblhau'r gwaith o fewn y terfynau amser.
- Effeithiodd yr oedi wrth lunio'r Datganiad Cyfrifon ar yr archwiliad o ddatganiad Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan, ac ni dderbyniwyd pecyn diwygiedig Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan oedd yn cynnwys y diwygiadau i'r datganiadau terfynol tan 27 Medi. Ni chydymffurfiwyd â therfyn amser Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno datganiadau archwiliedig, sef 30 Medi, gan nad oedd digon o amser i gwblhau'r archwiliad. Dylai'r Awdurdod sicrhau bod pecynnau diwygiedig Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn cael eu cwblhau'n brydlon a'u trosglwyddo i'r tîm archwilio, ynghyd â dogfennaeth ategol.

Mae fy adolygiad o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac yn dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan y Mesur Llywodraeth Leol (2009). Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol. Yn ogystal, tynnaf eich sylw at y materion canlynol:

- Mae'r Awdurdod wedi parhau i ddatblygu ei drefniadau ar gyfer gwaith cynllunio ariannol tymor canolig gan sicrhau ei fod mewn sefyllfa well i ateb ei heriau ariannol.
- Mae'r Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol, o dan ei gylch gorchwyl, am waith rheoli ariannol, gwaith rheoli adnoddau a gwaith rheoli cyffredinol ac am Sicrwydd, ac mae hyn yn cynnwys ystyried adroddiadau Archwilio Mewnol. Gellid gwneud gwelliannau i'r ffordd y caiff canfyddiadau Archwiliadau Mewnol eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio. Dylid rhoi crynodeb ysgrifenedig (yn hytrach na diweddariadau llafar) o waith Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod, gan nodi'r gwaith a wnaed, casgliadau a chanfyddiadau allweddol, a'i gynnwys ym mhapurau'r Pwyllgor Archwilio er mwyn galluogi'r Aelodau i ystyried materion ymlaen llaw. Byddai cyflwyno system 'olrhain argymhellion' yn galluogi aelodau i fonitro cynnydd a rhoi sicrwydd bod argymhellion gwaith Archwilio Mewnol yn cael eu gweithredu gan reolwyr.
- Mae'r Awdurdod wedi cryfhau ei broses rheoli risg drwy ddatblygu Cofrestr Risg Gorfforaethol. Disgwylir i'r Panel Gweithredol drafod y gofrestr a'i mabwysiadu'n fuan a deallwn y bydd yn cael ei hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio o leiaf unwaith y flwyddyn.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2011.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2010/11 fod yn unol â'r swm a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Virginia Stevens

Dros ac ar Ran yr Archwilydd Penodedig

# Atodiad 4
# Amcanion gwella Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

http://www.gwastan-gogcymru.org.uk/page.asp?page=74

| **Amcanion Gwella ar gyfer 2010-11** |
|---|
| **Maes Ffocws Un**<br>Amddiffyn ac Atal |
| **1** Lleihau nifer y tanau damweiniol a bwriadol a marwolaethau ac anafiadau cysylltiedig drwy ddarparu cymorth a chyngor amserol a dargedwyd ar y cyd â sefydliadau sector cyhoeddus eraill, asiantaethau gwirfoddol ac Atal Tân fel y bo'n briodol. |
| **2** Helpu asiantaethau eraill i leihau nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd a'r marwolaethau a'r anafiadau cysylltiedig. |

| **Amcanion Gwella ar gyfer 2011-12** |
|---|
| **Amcan Gwella 1**<br>Ceisio cadw pobl a chymunedau'n ddiogel trwy atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi |
| **1** Gweithredu Strategaeth Diogelwch Cymunedol/Lleihau Risg sy'n cynnwys:<br>• rhoi cyngor ar ddiogelwch cymunedol;<br>• targedu a chynnal gwiriadau diogelwch tân yn y cartref;<br>• rhoi cyfarpar am ddim yn unol â'r angen a aseswyd. |
| **2** Trefnu bod y strategaeth Diogelwch Cymunedol yn cael ei hasesu gan gymheiriaid. |
| **3** Parhau i fonitro nifer yr achosion o danau mewn anheddau. |
| **4** Cynnwys sefydliadau partner wrth ddysgu gwersi o danau mewn anheddau er mwyn ei gwneud yn llai tebygol y byddant yn digwydd eto. |
| **5** Defnyddio gwybodaeth i ragweld tanau mewn anheddau a'u hatal. |
| **6** Datblygu safon ymateb leol i ategu ymateb yn gyflym a chywir i danau mewn anheddau. |
| **7** Sicrhau bod mwy o orsafoedd tân yn gweithredu system dyletswydd yn ôl y galw drwy reoli prosesau recriwtio'n fwy effeithlon. |

| Amcanion Gwella ar gyfer 2010-11 | |
|---|---|
| **Maes Ffocws Dau**<br>Effeithiolrwydd Gweithredol | |
| **1** | Bwrw ymlaen â'r broses arfaethedig o gyflwyno systemau radiogyfathrebu a gwybodaeth cenedlaethol newydd. |
| **2** | Bwrw ymlaen â chynlluniau i wella gwasanaethau chwilio ac achub trefol, achub gan ddefnyddio rhaffau, achub o ddyfroedd a'r gallu i achub anifeiliaid mawr. |
| **3** | Cyflwyno chwe cherbyd tân newydd, Uned Rheoli Digwyddiadau newydd a bwrw ymlaen â'r adolygiad o nifer a lleoliad pympiau cludadwy ysgafn. |
| **4** | Darparu dillad gwaith gweithredol newydd (cyfarpar diogelu personol) yn ôl manyleb Cymru gyfan. |
| **5** | Adeiladu ar fesurau sy'n bodoli eisoes i fonitro perfformiad gweithredol criwiau tân cyn, yn ystod ac ar ôl digwyddiadau. |
| **6** | Canolbwyntio ar wella effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarperir drwy'r system dyletswydd yn ôl galw. |
| **7** | Parhau i wella swyddogaethau'r ystafell rheoli tanau drwy gydweithredu â swyddogaethau ystafell reoli'r heddlu a'r gwasanaeth ambiwlans. |
| **8** | Parhau i wella adeiladau'r Awdurdod drwy gyflawni'r rhaglenni arfaethedig o brosiectau cyfalaf, gwaith cynnal a chadw a mân waith. |

| Amcanion Gwella ar gyfer 2011-12 | |
|---|---|
| **Amcan Gwella 2**<br>Cynorthwyo i leihau'r risg o danau'n digwydd yn ddamweiniol mewn eiddo annomestig, fel bod gweithgarwch arferol yn gallu parhau ac nad yw bywydau pobl sy'n ymweld ac yn gweithio yno'n cael eu rhoi mewn perygl | |
| **1** | Parhau i ddatblygu rhaglen o arolygiadau a threfniadau diogelwch tân wedi'i thargedu at eiddo annomestig gan ddefnyddio data a gwybodaeth leol a ddelir ar y system Rheoli Cofnodion. |
| **2** | Ymateb cyflym a chywir i danau ar safleoedd annomestig gan griwiau tân sydd â gwybodaeth ar derfynellau data cludadwy sydd wedi'u cysylltu â chofnodion peryglon canolog a gwybodaeth arall. |

| Amcanion Gwella ar gyfer 2010-11 | |
|---|---|
| **Maes Ffocws Tri**<br>Cadernid | |
| **1** | Parhau â phrosiect cadernid Cymru Gyfan rhwng ystafelloedd rheoli tanau. |
| **2** | Parhau i gyflwyno'r rhwydwaith ardal eang newydd a'r datrysiad data symudol (y ddau yn rhan o brosiect cenedlaethol). |
| **3** | Parhau i wella systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. |
| **4** | Parhau i adolygu a defnyddio trefniadau Rheoli Parhad Busnes a gwella gallu'r Gwasanaeth i ymdrin â digwyddiadau ar raddfa fawr. |

| Amcanion Gwella ar gyfer 2011-12 | |
|---|---|
| **Amcan Gwella 3**<br>Cynorthwyo i leihau'r perygl a'r difrod a achosir gan argyfyngau nad ydynt yn danau, megis llifogydd, gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, a digwyddiadau cemegol | |
| **1** | Parhau â gwaith rhyngasiantaethol (e.e. gydag Asiantaeth yr Amgylchedd) a chwarae rhan weithredol yn y Fforwm Cadernid Lleol. |
| **2** | Parhau i gymryd rhan mewn cynlluniau a gynlluniwyd i gynyddu diogelwch ar y ffyrdd, megis Pass Plus Cymru, y Cynllun Addysg Moduro a Sioeau Teithiol Trawiadol. |
| **3** | Datblygu dull o broffilio gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yng Ngogledd Cymru i ategu a mireinio'r strategaeth ar gyfer lliniaru eu heffeithiau. |
| **4** | Datblygu dangosyddion perfformiad lleol a gwneud mesuriadau sylfaenol yn eu herbyn er mwyn cefnogi gwelliant yn y maes hwn. |
| **5** | Cynnydd parhaus yn nifer y cofnodion cywir o ddeunyddiau peryglus a ddelir ar safleoedd. |

| **Amcanion Gwella ar gyfer 2010-11** |
| --- |
| **Maes Ffocws Pedwar**<br>Cydraddoldeb ac Amrywiaeth |
| **1** Mynd ati i ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Sengl sy'n adlewyrchu gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb newydd. |
| **2** Darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu mewn agweddau penodol ar faterion amrywiaeth ar gyfer Aelodau'r Awdurdod, uwch reolwyr a phenaethiaid adrannau. |

| **Amcanion Gwella ar gyfer 2011-12** |
| --- |
| **Amcan Gwella 4**<br>Cynorthwyo i fynd i'r afael â phroblemau llosgi bwriadol fel nad yw pobl, cymunedau, busnesau, yr amgylchedd a threftadaeth yr ardal yn cael eu rhoi mewn perygl |
| **1** Cydweithredu â Heddlu Gogledd Cymru ac asiantaethau cyhoeddus a gwirfoddol eraill i atal tanau bwriadol ac achosion o fandaliaeth drwy dân. |
| **2** Gweithio'n agos gyda grwpiau ac unigolion penodol (e.e. drwy gynlluniau Phoenix a FACE) i ddarbwyllo pobl rhag cynnau tanau bwriadol. |

| **Amcanion Gwella ar gyfer 2010-11** |
| --- |
| **Maes Ffocws Pump**<br>Iaith a Threftadaeth |
| **1** Monitro'r gwaith o gwblhau'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig â Chynllun Iaith Gymraeg diwygiedig 2010-2013. |

| **Amcanion Gwella ar gyfer 2011-12** |
| --- |
| **Amcan Gwella 5**<br>Canolbwyntio ar wella datblygiad cynaliadwy'r Awdurdod trwy gael y cydbwysedd iawn rhwng effaith amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol darparu gwasanaeth tân ac achub |
| **1** Cyflwyno Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy. |

| Amcanion Gwella ar gyfer 2010-11 | |
|---|---|
| **Maes Ffocws Chwech**<br>Cynaliadwyedd | |
| **1** | Gwella trefniadau i adnabod galwadau tân diangen, a thrwy hynny leihau nifer y teithiau diangen a gwastraffus pan nad oes argyfwng. |
| **2** | Talu sylw penodol i leihau nifer y tanau yn gyffredinol, ac yn benodol danau awyr agored sy'n achosi difrod i gefn gwlad. |
| **3** | Gwella systemau i fonitro'r defnydd o danwydd ac olrhain cerbydau o safbwynt gwella rheolaeth amgylcheddol ac arbed ynni lle y bo'n bosibl. |

| Amcanion Gwella ar gyfer 2011-12 | |
|---|---|
| **Amcan Gwella 6**<br>Dod yn well am adnabod ac ymgysylltu â phobl a allai eu cael eu hunain dan anfantais gymdeithasol a/neu economaidd, fel ein bod yn gallu gwella eu synnwyr o les, a lleihau'r risg i'w diogelwch personol | |
| **1** | Dwyn ynghyd amrywiaeth o wybodaeth yn seiliedig ar y boblogaeth o ffynonellau dibynadwy er mwyn helpu i dargedu cyngor ar ddiogelwch yn effeithlon ac yn effeithiol. |
| **2** | Datblygu Cynllun Cydraddoldeb Sengl sy'n helpu i ddiogelu pobl rhag cael eu rhoi o dan anfantais annheg oherwydd eu hoedran, eu hanabledd, eu rhyw, eu priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd, eu hil, eu crefydd neu gredo, neu eu cyfeiriadedd rhywiol. |

| Amcanion Gwella ar gyfer 2010-11 | |
|---|---|
| **Maes Ffocws Saith**<br>Newid Cyfreithiol a Gwleidyddol | |
| **1** | Parhau i gynnal cydberthnasau effeithiol â rhanddeiliaid gwleidyddol yn dilyn etholiad cyffredinol 2010. |
| **2** | Addasu i'r prosesau a'r amserlen newydd sy'n gysylltiedig â chyflwyno Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. |

| Amcanion Gwella ar gyfer 2011-12 | |
|---|---|
| **Amcan Gwella 7**<br>Sicrhau bod trefniadau Cynllunio a Rheoli Parhad Busnes y Gwasanaeth mor gynhwysfawr a sicr ag y gallent fod | |
| **1** | Ailarfarnu adnoddau a chyfrifoldebau o ran Cynllunio Parhad Busnes er mwyn rhoi pwyslais o'r newydd ar fwrw ymlaen â chynllluniau sydd eisoes yn bodoli a datblygu rhai newydd yn gyson. |
| **2** | Rhoi'r un pwys ar reoli parhad busnes corfforaethol a busnes gweithredol er mwyn sicrhau na chaiff unrhyw faes ei hepgor a bod cynlluniau adfer yn gadarn. |

| Amcanion Gwella ar gyfer 2010-11 | |
|---|---|
| **Maes Ffocws Wyth**<br>Gwybodaeth | |
| **1** | Parhau i ychwanegu at y wybodaeth amserol, berthnasol a digonol sydd ar gael fel sail i wneud penderfyniadau, hyrwyddo gwelliant a mesur ei berfformiad ei hun. |
| **2** | Cyfrannu at broses gydweithredol o ddatblygu System Cofnodi Digwyddiadau Cymru gyfan sydd wedi'i theilwra yn benodol i anghenion Cymru. |
| **3** | Parhau i ymateb i faterion a amlygwyd yn yr arolwg o farn staff ar gyfathrebu corfforaethol yn cynnwys datblygu system o friffiau tîm. |
| **4** | Parhau i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y broses o ymgynghori ar y gyllideb, a gwaith cynllunio blynyddol ar lefel gwasanaeth, sir a gorsaf; cofnodi gwybodaeth am staff, y gweithlu a'r fflyd a chyflwyno adroddiadau ar y wybodaeth honno; rheoli gwybodaeth weithredol a chofnodion diogelwch tân a gwariant ar oramser ac arbedion effeithlonrwydd. |

| Amcanion Gwella ar gyfer 2011-12 | |
|---|---|
| **Amcan Gwella 8**<br>Newid agweddau ar strwythur y sefydliad a ffyrdd o weithredu | |
| **A1** | Gweithredu’r adolygiad o swyddogion. |
| **A2** | Cyflwyno ffyrdd newydd o gyfawni’r swyddogaethdiogelwch tân deddfwriaethol. |
| **A3** | Ymchwilio i ddichonolrwydd defnyddio cronfa wrth gefn o staff y System Amser Cyflawni i ymorol am orsafoeddy System yn ôl y Galw. |
| **A4** | Adolygu’r swyddogaeth staff cefnogol. |
| **A5** | Datblygu protocol ar gyfer Cynllunio a Gwerthuso Swyddi. |

| Amcanion Gwella ar gyfer 2010-11 |
| --- |
| **Maes Ffocws Naw:**<br>Technoleg |
| **1** Parhau i gyflwyno ac uwchraddio systemau ac adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gefnogi gwaith effeithlon, effeithiol a diogel (yn cynnwys rhybuddion clyweledol, radios ar safleoedd tân, cyfrifiaduron ac argraffwyr, systemau'r ystafell reoli, system gwybodaeth am ddigwyddiadau a systemau cyfrifyddu ariannol). |

| Amcanion Gwella ar gyfer 2011-12 |
| --- |
| **Amcan Gwella 9**<br>Adolygu a gwella prosesau busnes mewnol |
| **B1** Adolygu effeithlonrwydd ystod o systemau busnes, a chlymu hynny gydag asesiad cadarn achos wrth achos o swyddi er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyson â gofynion y gwasanaeth. |
| **B2** Ailgynllunio’r swyddogaeth cefnogi a datblygu’r ochr weithredol. |
| **B3** Ailgynllunio’r swyddoaeth hyfforddi, datblygu a dysgu. |

| Amcanion Gwella ar gyfer 2010-11 | |
|---|---|
| **Maes Ffocws Deg**<br>Trefniadau Gweithlu Rhagorol a Theg | |
| **1** | Cwblhau newidiadau yn dilyn yr adolygiad o drefniadau staffio'r ystafell reoli. |
| **2** | Cwblhau archwiliad cyflog cyfartal. |
| **3** | Paratoi Cynllun Cydraddoldeb Sengl. |
| **4** | Cytuno ar gytundeb lefel gwasanaeth gyda chwmni cyfraith cyflogaeth. |
| **5** | Cytuno ar gytundeb lefel gwasanaeth neu benodi swyddog ymchwilio mewnol. |
| **6** | Parhau i fwrw ymlaen â'r Adolygiad o Swyddogion. |
| **7** | Ymestyn yr ystod o gontractau sy'n rhan o'r system dyletswydd yn ôl y galw i gynnwys contractau 25% a 50% er mwyn sicrhau bod cyfarpar y system ar ddyletswydd yn ôl galw ar gael drwy'r amser. |
| **8** | Datblygu proffil rhinweddau a phriodoleddau personol ar gyfer y Gwasanaeth o'r cofnodion sy'n bodoli eisoes. |
| **9** | Adolygu cofnodion datblygu personol ac ymgorffori'r safonau Galwedigaethol Cenedlaethol diwygiedig ar gyfer diffoddwyr tân. |
| **10** | Sefydlu systemau sicrhau ansawdd ar gyfer staff hyfforddi dysgu a datblygu. |

| Amcanion Gwella ar gyfer 2011-12 | |
|---|---|
| **Amcan Gwella 10**<br>Cynllunio a pharatoi ar gyfer y gostyngiad yng nghyllideb 2012-13 | |
| **C1** | Cytuno ar gynllun i leihau costau staff tua £1,000,000 (e.e. hunanamserlennu/cau gorsafoedd/symud pympiau/opsiwn arall). |

| Amcanion Gwella ar gyfer 2010-11 |
| --- |
| **Maes Ffocws Deg:**<br>Trefniadau Gweithlu Rhagorol a Theg |
| **11** Adolygu'r hyfforddiant gyrru sydd ar gael i yrwyr cerbydau argyfwng. |
| **12** Atgyfnerthu'r rhaglen datblygu sgiliau rheolwyr goruchwylio |
| **13** Rhoi gwybodaeth i gyflogeion y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol am yr opsiynau sydd ar gael i gynyddu buddiannau pensiwn, yn cynnwys mesurau effeithiol i gynilo ar gyfer ymddeoliad. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk